| Enw'r Ymgeisydd | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| | | |

**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**

**Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**

**General Certificate of Secondary Education**

165/64

# HANES

## MANYLEB A: ASTUDIAETHAU MANWL AC AMLINELLOL O AGWEDDAU AR HANES CYMRU/LLOEGR A'R BYD

## PAPUR 2

## ASTUDIAETH AMLINELLOL

## 14 - YR ALMAEN, 1919-1991

A.M. DYDD IAU, 14 Mehefin 2007

(1 awr 20 munud)

| Cwestiynau a atebwyd | Swyddfa'n unig |
|---|---|
| **Cwestiwn** | /30 |
| **Cwestiwn** | /30 |
| **CYFANSWM** | /60 |

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **ddau** gwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion ar y llinellau yn y llyfryn hwn. Defnyddiwch dudalennau ychwanegol os nad yw'r llinellau a ddarparwyd yn y llyfryn hwn yn ddigon. Ysgrifennwch eich enw ar bob tudalen ychwanegol a nodwch yn glir rif y cwestiwn rydych yn ei ateb. Rhowch eich tudalennau ychwanegol y tu mewn i'r llyfryn hwn.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran-gwestiwn.

Cewch farciau am ansawdd eich cyfathrebu ysgrifenedig.

I ennill y marciau llawn ar gyfer unrhyw gwestiwn, rhaid i'ch atebion fod yn berthnasol a rhaid iddynt wneud defnydd llawn o'r wybodaeth a ddarparwyd.

**Ym mhob achos dylech gefnogi eich atebion trwy gyfeirio at eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r pwnc a ddewiswyd.**

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*Atebwch unrhyw* **ddau** *gwestiwn.*

**1. Mae'r cwestiwn hwn yn sôn am ddatblygiad yr Almaen, 1919-1991.**

Astudiwch y wybodaeth isod ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn. [30]

| **GWYBODAETH** |
| --- |
| Roedd llawer o newidiadau yn natblygiad yr Almaen rhwng 1919 a 1991. Mae'r darlun yn dangos Canghellor cyntaf Gorllewin yr Almaen, Konrad Adenauer. |



Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(a)* Beth oedd Mur Berlin? [2]

*(b)* Disgrifiwch bolisïau economaidd y Natsïaid rhwng 1933 a 1939. [4]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(c)* Eglurwch y rhesymau pam yr ymunodd Gorllewin yr Almaen â'r Gymuned Economaidd Ewropeaidd *(EEC)*. [6]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(ch)* Pam roedd y Dirwasgiad ar ddechrau'r 1930au mor bwysig i ddatblygiad yr Almaen? [8]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(d)* Ym mha ffyrdd y datblygodd ac y newidiodd yr Almaen fel cymdeithas rhwng 1919 a 1991?

*Yn eich ateb efallai yr hoffech ystyried Gweriniaeth Weimar, y cyfnod Natsïaidd, Adenauer, Dwyrain a Gorllewin yr Almaen wedi'r Ail Ryfel Byd, y sefyllfa yn 1991 ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill.* [10]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**2. Mae'r cwestiwn hwn yn sôn am fywydau pobl yr Almaen, 1919-1991.**

Astudiwch y wybodaeth isod ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn. [30]

| GWYBODAETH |
|---|
| Profodd pobl yr Almaen lawer o newidiadau yn eu bywydau rhwng 1919 a 1991. Mae'r darlun yn dangos plant yn yr Almaen yn chwarae ag arian diwerth yn 1923. |



Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(a)* Beth oedd yr Holocost? [2]

*(b)* Disgrifiwch y wyrth economaidd yng Ngorllewin yr Almaen wedi'r rhyfel. [4]



**Trosodd.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(c)* Eglurwch sut roedd trefn lywodraethol y Natsïaid yn effeithio ar fenywod yr Almaen. [6]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(ch)* Pam y gwnaeth llawer o bobl yr Almaen droi fwyfwy yn erbyn Gweriniaeth Weimar rhwng 1919 a 1933? [8]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(d)* Ym mha ffyrdd y datblygodd pobl yr Almaen fel cenedl rhwng 1919 a 1991?

*Yn eich ateb efallai yr hoffech ystyried effaith y Rhyfel Byd Cyntaf, y Dirwasgiad, Natsïaeth, y wyrth economaidd wedi'r rhyfel, y sefyllfa yn 1991 ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill.* [10]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**3. Mae'r cwestiwn hwn yn sôn am yr Almaen a'r byd mawr, 1919-1991.**

Astudiwch y wybodaeth isod ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn. [30]

**GWYBODAETH**

Chwaraeodd yr Almaen ran bwysig ym materion y byd rhwng 1919 a 1991. Mae'r darlun yn dangos effeithiau cyrch bomio'r Cynghreiriaid ar Dresden yn 1945.



Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(a)* Beth oedd Cytundeb Warsaw? [2]

*(b)* Disgrifiwch feddiannu'r Ruhr gan y Ffrancwyr. [4]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(c)* Eglurwch y rhesymau dros lwyddiannau milwrol yr Almaen rhwng 1939 a 1942. [6]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(ch)* Pam y gwnaeth Hitler ddilyn polisi tramor mwy ymosodol yn ystod y 1930au? [8]

Examiner
only
*Arholwr
yn unig*

*(d)* Ym mha ffyrdd y datblygodd yr Almaen ei safle yn y byd rhwng 1919 a 1991?

*Yn eich ateb efallai yr hoffech ystyried canlyniad y Rhyfel Byd Cyntaf, cyfnod Stresemann, y cyfnod Natsïaidd, yr Ail Ryfel Byd, y Rhyfel Oer, y sefyllfa yn 1991 ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill.* [10]

Examiner only
*Arholwr yn unig*